# Pictiwr Peryg
# Gweithgareddau Dilynol

Mae gweithgareddau dilynol Pictiwr Peryg yn rhoi cyfle i'r disgyblion gyflawni deilliannau dysgu Cyfnod Allweddol 3 o'r Fframwaith ABCh ar gyfer disgyblion 7 i 19 oed yng Nghymru

Dylai'r gweithgareddau gael eu cyflwyno fel rhan o raglen ABCh ac addysg rhyw a chydberthnasau (ARhCh) yr ysgol. Dylent gydymffurfio â pholisi addysg rhyw yr ysgol a'r fframwaith gwerthoedd cytunedig ar gyfer ARhCh. Dylai'r athrawon ystyried os ydi'r wers yn addas i anghenion y dysgwyr o ran iaith, delweddau, aeddfedrwydd a dealltwriaeth. Hefyd, dylid gosod rheolau sylfaenol ac atgoffa'r disgyblion am ddatgeliad personol a chyfrinachedd. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a chyngor dilynwch y ddolen i 'dysgu am faterion sensitif'
http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?lang=

| Gweithgareddau Pictiwr Peryg | Cysylltiad â Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013 | Cysylltiad â Fframwaith ABCh ar gyfer disgyblion 7 i 19 oed yng Nghymru | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Cyrhaeddiad** |
| 1. Mapio Meddwl y Cymeriadau | L(O)sp<br>L(O)l | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith | • Datblygu agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill |
| 2. Beth yw Secstio? | L(O)sp<br>L(O)l | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith | • Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill |
| 3. Stori Lowri | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol<br>• Uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill | • Agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth |
| 4. Yn fy Esgidiau | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d<br>L(W)mpr<br>L(W)la | • Uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill<br>• Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol | • Datblygu agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill<br>• Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Gweithgaredd Y Gadair Boeth | L(O)sp<br><br>L(O)l<br><br>L(O)c&d | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• Uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill | • Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth |
| 6. Y Canlyniadau | L(O)sp<br><br>L(O)l<br><br>L(O)c&d | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith | • Agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc<br>• Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd |
| 7. Ystadegau Secstio | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d<br>N(DNR)ipc<br>N(UDS)ir | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith<br>• Bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion<br>• Dechrau trafod ymddygiad mewn cydberthnasau personol | • Agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc |
| 8. Storïau Byrion | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d<br>L(R)c | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• Uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill | • Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth<br>• Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd |
| 9. Cyfreithlon neu Anghyfreithlon? | L(O)sp<br>L(O)l | • Defnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith | • Agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. Continwwm Gwerthoedd Secstio | L(O)sp<br>L(O)l | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol | • Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth<br>• Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd |
| 11. Bingo Dynol | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d | • Gweithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill | • |
| 12. Ni fyddwn i'n Meindio… Gweithgaredd Barn | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol | • Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth |
| 13. Gweithgaredd Didoli Postio neu Beidio Postio? | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d | • Datblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill<br>• Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol | • Deall eu credoau yng nghyd-destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas |
| 14. Senario 1, 2, a 3 | L(O)sp<br>L(O)l<br>L(O)c&d<br>L(W)mpr | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol | • Y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd<br>• Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth |
| 15. Dewisiadau yn y Dyfodol | | • Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol<br>• Cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol<br>• Mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol | • Agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc |

1. **Mapio Meddwl y Cymeriadau**
**Dylech gynnal y gweithgaredd hwn ar ôl i'r Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu gyflwyno'r wers Pictiwr Peryg**

Dangoswch y DVD (Adnodd 1a) i'r dosbarth. Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am brif bwyntiau y stori Pictiwr Peryg. Rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan. Rhowch fap meddwl y cymeriadau (Adnodd 1b) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r map meddwl drwy nodi ôl-effeithiau cymdeithasol, emosiynol a chyfreithiol secstio. Gofynnwch i bob grŵp ddarllen eu hatebion allan i weddill y dosbarth.

Gall yr athrawon gyfeirio at y nodyn i athrawon isod sy'n crynhoi beth yw'r Gyfraith neu ofyn am gyngor gan eu Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu (SCYH).

**Nodyn i Athrawon:**

Cyn gynted ag y mae person ifanc yn llwytho i fyny neu'n anfon llun neu fideo maent yn colli rheolaeth ohono am byth oherwydd mae'r rhyngrwyd yn barth cyhoeddus. Pan fydd pobl yn anfon negeseuon rhywiol neu ddelweddau rhywiol anweddus gan ddefnyddio technoleg ddigidol fe elwir hyn yn secstio.

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan yr Internet Watch Foundation (IWF 2012) yn dangos bod 88% o ddelweddau o bobl ifanc sydd ar-lein yn cael eu cymryd o'u lleoliad gwreiddiol a'u llwytho i fyny i wefannau eraill.

Y Gyfraith
Fe ddiffinnir plentyn fel person dan 18 oed.

Mae tynnu, gwneud, rhoi caniatâd i dynnu, rhannu, dangos, meddu, meddu gyda'r bwriad o rannu neu hysbysebu lluniau anweddus neu luniau ffug o unrhyw berson dan 18oed yn drosedd.

Os bydd yn cael ei euogfarnu, yna gall y troseddwr gael ei garcharu am hyd at 10 mlynedd a gall ei enw gael ei roi ar y gofrestr o droseddwyr rhyw.

2. **Beth yw Secstio?**

Mae'r gweithgareddau canlynol yn galluogi'r disgyblion i ddilyn stori am grŵp o ffrindiau sy'n gysylltiedig â secstio. Byddant yn gallu adnabod y camgymeriadau sydd wedi'u gwneud a'r troseddau sydd wedi'u cyflawni. Drwy drafod â'i gilydd byddant yn gallu ystyried rhai o'r rhesymau dros weithredoedd y bobl ifanc yn y stori.
Adolygwch beth ydi secstio drwy ofyn i'r disgyblion 'Beth all fynd o'i le pan fydd pobl ifanc yn tynnu ac yn anfon lluniau neu fideos i eraill?'

3. **Stori Lowri**

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan. Dangoswch y cyflwyniad PowerPoint 'Stori Lowri' (Adnodd 3a), a dilynwch y sgript (Adnodd 3b) er mwyn egluro 'Stori Lowri', dioddefwr secstio.

Wedyn, rhowch daflen gwestiynau i bob grŵp (adnodd 3c) a gofynnwch i'r disgyblion drafod ac ateb y cwestiynau. Gofynnwch i bob grŵp ddarllen eu hatebion allan i weddill y dosbarth.

Rhowch set o gardiau llun (Adnodd 3d) a set o gardiau troseddau (Adnodd 3e) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried gweithredoedd pob cymeriad a didoli'r cardiau troseddau i ddangos pa droseddau, os o gwbl, mae bob un ohonynt wedi'u cyflawni. Gofynnwch i bob grŵp drafod a darllen allan eu hatebion. Mae Nodiadau'r Athro/Athrawes (Adnodd 3f) wedi'u paratoi i helpu gyda'r gyfraith.

Defnyddiwch y cyflwyniad PowerPoint 'Y Dewisiadau Anghywir' (Adnodd 3g) i drafod ac adolygu canlyniadau cyfreithiol gweithredoedd y tri cymeriad.

**4. <u>Yn fy Esgidiau</u>**

Rhannwch y disgyblion i barau. Dosrannwch daflenni teimladau Lowri (Adnodd 4a neu 4b) i bob pâr. Gofynnwch i'r disgyblion roi eu hunain yn sefyllfa Lowri ac adnabod y geiriau maent yn meddwl sy'n disgrifio sut mae'n teimlo ar ôl i'r ddelwedd anweddus gael ei phostio ar Facebook.

Rhowch gardiau cwestiynau Lowri (Adnodd 4c) i bob pâr i drafod. Eglurwch ei bod yn bwysig i ni allu symud ymlaen pan fydd rhywbeth yn digwydd i ni sy'n achosi niwed. Gofynnwch i bob pâr ddarllen eu hatebion i weddill y dosbarth. Helpwch y disgyblion i adnabod y math cywir o gefnogaeth pan fydd pethau yn mynd o chwith. Gofynnwch iddynt ddethol 5 person/sefydliad fyddai'n gallu cynnig cefnogaeth e.e. rhiant neu ofalwr, brawd neu chwaer hŷn, athro, cynghorwr ysgol, Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu, MEIC, Childline, CEOP.

Rhowch gopi o Ddyddiadur Lowri, (Adnodd 4d) i bob pâr a gofynnwch iddynt weithio gyda'i gilydd ac ysgrifennu darn byr ar gyfer dyddiadur Lowri. Dywedwch wrth y dosbarth y dylent ystyried yr effaith y mae'r digwyddiad wedi'i gael ar les, ymddygiad a pherthnasau Lowri gydag eraill gan gynnwys ffrindiau a theulu.

**5. <u>*Gweithgaredd Y Gadair Boeth – Marcus*</u>**

Dewiswch un disgybl i chwarae rhan Marcus. Rhowch daflen wybodaeth Marcus (Adnodd 5a) i'r disgybl yna. Gofynnwch i bob pâr ddod at ei gilydd i ffurfio grwpiau o bedwar. Rhowch gerdyn procio'r cof Marcus (Adnodd 5b) i bob grŵp. Gofynnwch iddynt feddwl am gwestiynau fel y gofynnir ar y cerdyn. Wedyn dylai pob grŵp ddewis un cwestiwn o blith eu hawgrymiadau i ofyn i Marcus.

Wedyn dylai'r athro/athrawes hwyluso gweithgaredd y gadair boeth. Ewch dros y prif bwyntiau y mae'r disgyblion yn eu gwybod am Marcus a phwysleisiwch y pwyntiau canlynol ar y bwrdd.

Gall:

- peidio meddwl am y canlyniadau
- profi teimladau negyddol fel cenfigen
- eisiau bod yn boblogaidd neu gael eich sylwi
- pwysau gan gyfoedion.

ddylanwadu ar weithredoedd pobl ifanc.

Gofynnwch i'r dosbarth, 'Beth all Marcus ei wneud i geisio gwneud yn iawn am yr hyn mae wedi'i wneud?'
Gallai Marcus:

- gyfarfod Lowri a'i rhieni i ddweud pa mor ddrwg y mae'n teimlo am hyn
- cytuno i beidio â phostio llun arall heb ganiatâd yr unigolyn
- ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad i Lowri
- ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad i rieni Lowri
- ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad i'w ffrindiau.

Cyflwynwch y syniad o adferiad pan fydd niwed yn digwydd i'r dosbarth. Bydd hyn yn helpu'r disgyblion i ystyried cymryd cyfrifoldeb am eu camweddau a'u helpu i feddwl am eu gweithredoedd yn y dyfodol.

## 6. Y Canlyniadau

Rhowch ddiagram gwe pry cop (Adnodd 6a) un cymeriad i bob grŵp. Gofynnwch i bob grŵp drafod atebion ar gyfer eu cymeriad ac ysgrifennu gymaint ohonynt ac y gallant ar y diagram gwe pry cop. Dewiswch lefarydd ar gyfer pob grŵp i gyflwyno eu syniadau i weddill y dosbarth. Defnyddiwch y cyflwyniad PowerPoint 'Y Canlyniadau' (adnodd 6b) i egluro i'r disgyblion beth ddigwyddodd nesaf. Drwy wneud hyn gallwch adnabod unrhyw atebion gafodd eu cynnig gan y dosbarth sydd yr un fath â'r canlyniadau sydd wedi'u nodi yn y cyflwyniad.

*Dylech atgoffa'r dosbarth unwaith y mae delwedd wedi'i hanfon yn ddigidol yna byddwch wedi colli rheolaeth ohoni – am byth!*
*Hefyd dylech eu hatgoffa bod tynnu, anfon, postio neu feddu ar ddelwedd anweddus o unrhyw un dan 18 oed yn drosedd difrifol.*

## 7. Ystadegau Secstio

Yn y gweithgaredd hwn bydd y disgyblion yn edrych ar ystadegau a gyhoeddwyd gan yr NSPCC, ChildLine a Beat Bullying. Gall y disgyblion gwblhau'r dasg hon ar eu pen eu hunain neu mewn parau. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r holiadur amlddewis (Adnodd 7a).

Cymharwch yr atebion a roddwyd gyda chyflwyniad PowerPoint (Adnodd 7b) sleid 1 a 2. Gofynnwch i'r dosbarth, 'Pa ateb sy'n eich syfrdanu chi fwyaf?' Rhowch adborth i'r dosbarth cyfan.

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan a gofynnwch i bob grŵp feddwl am gwestiwn 3 yn yr holiadur, a thrafod pa fath o bethau cas maent wedi'u profi ar-lein. Gofynnwch am eu hadborth ac ysgrifennwch atebion y disgyblion ar y bwrdd. Gall atebion y disgyblion gynnwys:

- iaith ymosodol a threisgar
- rhegi
- bwlio
- pwysau i edrych 'yn iawn'
- stelcian
- aflonyddwch
- delweddau ar-lein
- pornograffi
- negeseuon rhywiol.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth uchod fel pwnc trafod bod 60% o bobl ifanc wedi cael cais am ddelwedd anweddus, trafodwch gyda'r disgyblion beth ydi delwedd anweddus. Eglurwch fod yna wahaniaeth rhwng tynnu ac anfon hun-luniau hwyliog a negeseuon testun rhywiol. Dangoswch y diffiniad o secstio iddynt (Cyflwyniad PowerPoint Adnodd 7b, sleid 3)

***Secstio ydi postio ar-lein neu anfon negeseuon rhywiol neu luniau noeth neu hanner noeth neu fideos drwy unrhyw ddyfais ddigidol.***

Dylech atgoffa'r disgyblion bod canlyniadau difrifol i secstio a hynny yn gymdeithasol ac yn ôl y gyfraith. Mae tynnu ac anfon delweddau anweddus gan ddefnyddio unrhyw fath o ddyfais ddigidol yn drosedd. Dangoswch gyflwyniad PowerPoint Adnodd 7b, sleid 4.

***Mae tynnu, gwneud, rhoi caniatâd i dynnu, rhannu, dangos, meddu, meddu gyda'r bwriad o rannu neu hysbysebu lluniau anweddus neu luniau ffug o unrhyw berson dan 18 oed yn drosedd***

Yn olaf, dylech dynnu sylw'r disgyblion at y cymorth sydd ar gael os ydi rhywbeth y maent wedi'i weld ar-lein wedi eu cynhyrfu neu wedi gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus. (Siaradwch ag oedolyn, athro/athrawes, SCYH, ChildLine, Cybermentors, CEOP ayyb.)

**8. Storïau Byrion**

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan. Rhowch stori fer (Adnodd 8a) i bob grŵp a gofynnwch i'r disgyblion ateb y cwestiynau sydd ar y cerdyn. Wedyn dylech gynnal sesiwn adborth gyda'r dosbarth cyfan.

> Gwybodaeth i'r Athro/Athrawes.
>
> Y Gyfraith
> Fe ddiffinnir plentyn fel person dan 18 oed.
>
> Mae tynnu, gwneud, rhoi caniatâd i dynnu, rhannu, dangos, meddu, meddu gyda'r bwriad o rannu neu hysbysebu lluniau anweddus neu luniau ffug o unrhyw berson dan 18oed yn drosedd.
>
> Os bydd yn cael ei euogfarnu, yna gall y troseddwr gael ei garcharu am hyd at 10 mlynedd a gall ei enw gael ei roi ar y gofrestr o droseddwyr rhyw.

**9. Cyfreithlon neu Anghyfreithlon?**

Rhannwch yr ystafell i 3 ardal wahanol: Cyfreithlon, Dim yn Siŵr ac Anghyfreithlon. Gan ddefnyddio'r cerdyn datganiadau (Adnodd 9a) darllenwch y datganiad cyntaf i'r dosbarth a gofynnwch i'r disgyblion symud i'r ardal 'Cyfreithlon', 'Dim yn Siŵr' neu 'Anghyfreithlon'. Fel arall, gallwch ofyn iddynt roi eu llaw i fyny. Gofynnwch i'r disgyblion egluro pam maent wedi dewis yr opsiwn yna a nodwch beth yw'r gyfraith. (Cyfeiriwch at y 'wybodaeth i athrawon' uchod). Gwnewch hyn gyda phob datganiad. Yn olaf, crynhowch drwy ddweud bod pobl ifanc dan 18 oed mewn risg o gael cofnod troseddol os ydynt yn secstio.

**10. Continwwm Gwerthoedd Secstio**

Defnyddiwch y datganiadau isod i gynnal y gweithgaredd continwwm gwerthoedd.
*(DALIER SYLW. Gallwch hefyd ddefnyddio'r datganiadau mewn gweithgaredd Canfod Barn).*

**Datganiad 1:** *Mae secstio yn ffordd hwyliog o fflyrtio.*

> **Nodiadau:** Mi allwn reoli ymddygiad neb ond ni ein hunain. Mae secstio yn weithgaredd mentrus a wneir fel arfer heb feddwl llawer neu ddim am y canlyniadau. Er enghraifft, gall eich cariadon yn y dyfodol ddod o hyd i'r delweddau drwy ddefnyddio Google.

**Datganiad 2:** *Mae anfon lluniau rhywiol i fy nghariad yn iawn oherwydd dwi'n ymddiried ynddi/o i beidio â'u rhannu â neb.*

**Nodiadau:** Pan fydd cyplau yn gwahanu gall pethau fynd yn flêr. Dyma pryd mae negeseuon rhywiol a oedd yn gyfrinachol a phreifat yn fwyaf agored i gael eu rhannu â'r cyhoedd. Hefyd gall eich cyfrifon ar-lein gael eu 'hacio' gan unigolion sy'n cyhoeddi delweddau preifat. Hefyd mae achosion wedi bod lle mae lluniau wedi cael eu rhannu ar-lein ar ôl i ffônau symudol gael eu dwyn.

**Datganiad 3:** *Gallwch ddileu delwedd, fideo neu neges yn gyfangwbwl ar ôl ei anfon.*

**Nodiadau:** Unwaith y byddwch wedi anfon gwybodaeth ddigidol, nid oes ffordd o weld os oes copïau wedi'u gwneud. Os caiff y ddelwedd ei llwytho i fyny i'r rhyngrwyd, hyd yn oed am amser byr, gall unigolion ei chopïo, yn enwedig os ydyw wedi'i rhoi ar wefan rhwydweithio cymdeithasol.

**Datganiad 4:** *Mae lluniau sy'n cael eu hanfon ar 'Snapchat' yn diflannu'n gyflym ac felly mae hyn yn ffordd ddiogel o secstio.*

**Nodiadau:** Gall yr unigolyn sy'n derbyn y llun dynnu llun o'r ddelwedd gyda chamera neu ffôn arall cyn i'r llun ddiflannu. Mae delweddau yn aros yn y seiberofod am flynyddoedd hyd yn oed oes ydych yn meddwl eu bod wedi cael eu dileu.

**Datganiad 5:** *Mae'n haws secstio oherwydd nid yw hyn mor fentrus â mynd ar ddêt.*

**Nodiadau:** Mae'n wir na fyddwch yn mynd yn feichiog neu'n dal afiechyd a drosglwyddir yn rhywiol ond gall secstio ddifrodi perthnasau personol â ffrindiau, cariadon a'ch teulu, yn ogystal â gwneud drwg i'ch enw da.

**Datganiad 6:** *Mae secstio yn ffordd hawdd o ddangos faint ydych chi'n hoffi rhywun.*

**Nodiadau:** Gall pobl ifanc deimlo dan bwysau pan maent mewn perthynas â rhywun i rannu lluniau noeth o'u hunain. Mi wnaeth un arolwg o bobl ifanc ddarganfod bod tua hanner y bobl ifanc wedi cyfaddef eu bod wedi secstio a'u bod yn teimlo dan bwysau i anfon y lluniau. Mewn perthnasau, rhywiol neu beidio, mae gennych hawl i ddweud 'na' i unrhyw beth sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus.

**Datganiad 7:** *Mae tynnu llun o'r gwddf i lawr neu orchuddio'r wyneb yn ffordd ddiogel o secstio.*

**Nodiadau:** Mae pob llun a anfonir o ffôn symudol yn cynnwys data am yr anfonwr. Hefyd mae modd ychwanegu manylion adnabod ar ôl iddo gael ei anfon gan rywun sy'n adnabod y person sydd yn y llun.

Cwblhewch y gweithgaredd drwy drafod y canlynol gyda'r disgyblion:

***Gall un llun ddiffinio sut fath o berson ydych chi am amser hir. Felly peidiwch â gadael i'ch bywyd ar-lein ddifetha eich bywyd go iawn.***

Eglurwch i'r disgyblion:

- gall gwybodaeth ar-lein fod yna am byth.
- mae'n bosib y bydd pobl nad ydych yn eu hadnabod yn gallu gweld gwybodaeth bersonol amdanoch.
- mae cyflogwyr yn edrych ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol i weld os ydi ymgeiswyr am swyddi wedi postio rhywbeth amhriodol neu os ydi rhywun arall wedi postio rhywbeth amdanynt.

Eglurwch i'r disgyblion ei bod yn bwysig iddynt amddiffyn eu henw da digidol. Dylech eu hatgoffa i ystyried y canlynol:

- Cyn i chi dynnu ac anfon delweddau, meddyliwch sut fyddech chi'n teimlo petai'r llun yn cael ei basio o gwmpas yr ysgol, petai eich rhieni yn ei weld neu bobl eraill ar y rhyngrwyd.
- Sicrhewch fod eich proffil yn breifat a gwiriwch y gosodiadau o dro i dro er mwyn sicrhau nad yw hyn wedi newid.
- Cadwch olwg ar luniau eich ffrindiau ble'r ydych wedi cael eich 'tagio' a dileu unrhyw luniau cas.

**11. <u>Bingo Dynol</u>**

Rhowch daflen Bingo Dynol (Adnodd 11a) i bob disgybl yn y dosbarth. Gofynnwch i'r disgyblion symud o gwmpas y dosbarth a dod o hyd i berson gwahanol ar gyfer pob un o'r datganiadau. Dylai'r disgyblion nodi enw'r disgybl o dan y datganiad priodol. Y disgybl cyntaf i gasglu 8 enw gwahanol ar gyfer yr holl ddatganiadau ydi'r enillydd. Gofynnwch i'r dosbarth pa mor hawdd ydoedd i ddod o hyd i rywun ar gyfer pob un o'r datganiadau. A oedd yn anodd dod i hyd i rywun ar gyfer unrhyw un o'r datganiadau? Os oedd pa rai a pham? Wedyn dylech gynnal sesiwn adborth gyda'r dosbarth cyfan.

**12. <u>Byddwn/Ni fyddwn i'n Meindio...</u>**

Gallwch gynnal y gweithgaredd hwn mewn dwy ffordd. Defnyddiwch y datganiadau barn (Adnodd 12a) gyda'r dosbarth cyfan neu rhannwch y dosbarth i grwpiau.

**Gweithgaredd dosbarth**

Gan ddefnyddio tâp masgio neu linell ddychmygol, rhannwch y dosbarth yn ddau; '**Byddwn** i'n meindio petai hyn yn digwydd i mi' a '**Ni fyddwn** i'n meindio petai hyn yn digwydd i mi'. (Adnodd 12d) Dewiswch ddetholiad o wahanol ddatganiadau o blith y datganiadau barn (Adnodd 12a). Darllenwch y datganiadau fesul un a gofynnwch i'r disgyblion fynegi beth ydi eu barn nhw drwy sefyll un ochr neu'r llall i'r llinell. Cyn symud ymlaen i'r datganiad nesaf, gofynnwch i rai o'r disgyblion ddweud pam maent wedi penderfynu sefyll ble maent. Wedyn dylech gynnal sesiwn adborth gyda'r dosbarth cyfan.

Wedyn gallwch ddefnyddio'r cardiau risg (Adnodd 12b). Rhowch y datganiad 'Dim risg' yn un cornel o'r ystafell, yna 'Risg i mi' mewn cornel arall, 'Risg i fy ffrind/iau' mewn cornel arall a 'Risg i bawb' yn y bedwaredd gornel.

Yna darllenwch ddetholiad gwahanol o ddatganiadau barn (Adnodd 12a). Gofynnwch i'r disgyblion sefyll wrth ymyl y cerdyn risg sy'n gweddu orau â'r datganwyd a ddarllenwyd yn eu barn nhw. Wedyn dylech gynnal sesiwn adborth gyda'r dosbarth cyfan.

**Gweithgaredd grŵp**

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan a rhowch set o gardiau ffôn (Adnodd 12c) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion rannu'r cardiau i ddau bentwr; 'Byddwn i'n meindio petai hyn yn digwydd i mi' neu 'Ni fyddwn i'n meindio petai hyn yn digwydd i mi' (Adnodd 12d).

Wedyn dylech gynnal sesiwn adborth gyda'r dosbarth cyfan gan ofyn i bob grŵp yn ei dro siarad am un o'r cardiau y maent wedi'i roi ym mhob categori ac egluro'r rhesymau dros eu dewis.

Yna rhowch set o gardiau risg (Adnodd 12b) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion roi pob datganiad wrth y cerdyn risg sy'n gweddu orau yn eu barn nhw. Gofynnwch i bob grŵp ddweud wrth weddill y dosbarth beth oedd eu rhesymau dros eu penderfyniad.

**13. Postio neu Beidio Postio?**

Nod y gweithgaredd hwn ydi helpu'r disgyblion i graffu ar eu barn nhw eu hunain a'u gwerthoedd o ran beth sy'n ddelwedd dderbyniol ac annerbyniol i rannu ag eraill. Gan ddefnyddio'r cyflwyniad PowerPoint, (Adnodd 13a) i gefnogi'r gweithgaredd, rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan.

Rhowch set o gardiau hun-luniau (Adnodd 13b) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion ddidoli'r cardiau i gategorïau gwahanol o'u dewis nhw. Gofynnwch i ysgrifennydd pob grŵp ysgrifennu'r categorïau i lawr. Gofynnwch i bob grŵp ddweud beth ydi'r categorïau maent wedi'u dewis a pham.

Nodyn i'r Athro/Athrawes

Efallai y bydd y disgyblion yn dewis categorïau fel:

dangos ei hun | hurt | doniol | secsi | cŵl | bywiog
digywilydd | hwyl | gwirion | prydferth | mentrus

Mewn parau, dywedwch wrth y disgyblion feddwl am yr hun-luniau sydd ganddynt efallai ar eu ffôn.

1. Gofynnwch iddynt drafod pa gategori fyddant yn disgyn iddo.
2. Gofynnwch iddynt ystyried pa gategori/au fyddant yn barod i'w rhannu â ffrindiau.

Gofynnwch i bob grŵp awgrymu 1 canlyniad positif ac 1 canlyniad negatif am rannu delweddau ar-lein gyda ffrindiau.

e.e. gallai'r canlyniadau positif gynnwys - mwy o geisiadau gan bobl i fod yn ffrindiau, mwy o sylwadau canmoliaethus ac unigolion yn dewis 'hoffi' eich lluniau.

e.e. canlyniadau negatif – bwlio, enllib, galw enwau, niweidio'ch enw da, delwedd a dynnwyd ac a ddefnyddiwyd i greu embaras, delwedd yn cael ei rhoi ar wefan amheus, ayyb.

Dywedwch wrth y disgyblion i ganolbwyntio ar yr hun-luniau hanner noeth o ddwy ferch a dau fachgen. Gofynnwch i'r disgyblion drafod:

- Pa ddelweddau fyddai'n gallu cael yr effaith fwyaf ar yr unigolyn a pam?
- Ydych chi'n meddwl bod unrhyw un o'r 4 ddelwedd yn anweddus?
- Fyddai'n gwneud gwahaniaeth petai'r bobl ifanc sydd yn y lluniau dan 18 oed? Os byddai, pam? Beth fyddai'n gwneud y delweddau hyn yn anweddus?

Nodyn i'r Athro/Athrawes
Mae'n anghyfreithlon gwneud, tynnu, meddu neu rannu unrhyw ddelwedd o unigolyn dan 18 oed sy'n noeth neu'n hanner noeth (merch bronnoeth).

Ni fyddai'r delweddau o'r ddau ddyn ifanc a'r ferch yn y top oren yn cael eu hystyried yn anweddus neu'n anghyfreithlon oherwydd bod eu rhannau rhywiol wedi cael eu gorchuddio. Fodd bynnag, mae'r ferch gyda'r camera yn fronnoeth a phetai dan 18 oed byddai hyn yn ddelwedd anweddus o blentyn.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu ei fod yn dderbyniol postio'r math yma o ddelweddau hyd yn oed os nad ydynt yn dechnegol yn anweddus. Gall y math yma o ddelweddau gael eu copïo a'u rhoi ar wefannau amheus neu gael eu haddasu drwy ddefnyddio rhaglenni addasu lluniau i edrych yn amheus. Dylech atgoffa'r disgyblion unwaith maent yn anfon neu'n postio delwedd maent yn colli rheolaeth ohoni am byth!

**14. <u>Senarios</u>**

Rhannwch y dosbarth i grwpiau bychan. Rhowch naill ai senario 1 (Adnodd 14a) am Paul neu senario 2 (Adnodd 14b) am Kayleigh a Matt i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y senarios ac yna thrafod ac ateb y cwestiynau. Wedyn gofynnwch iddynt rannu eu hatebion gyda gweddill y dosbarth.

Rhowch senario 3 (Adnodd 14c) i bob disgybl. Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen y senario ac ysgrifennu darn ar gyfer dyddiadur Nikolai. Dylent gogio mai Nikolai ydynt a dilyn yr arweiniad sydd ar y cerdyn. Gallwch ddethol disgyblion i rannu'r hyn maent wedi'i ysgrifennu gyda gweddill y dosbarth.

**15. <u>Dewisiadau yn y Dyfodol</u>**

Dechreuwch y gweithgaredd drwy ofyn i'r disgyblion feddwl:

1. Sut ydym yn gwneud penderfyniadau?
2. Pa ffactorau sy'n effeithio'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud?

Dylech hwyluso'r drafodaeth ac mewn grwpiau bychan, gofynnwch i'r disgyblion lunio cwestiynau fyddai'n golygu gorfod penderfyniad neu defnyddiwch yr enghreifftiau canlynol:

- Ddylwn i aros allan yn hwyrach?
- Ddylwn i ysgrifennu rhywbeth cas ar dudalen Facebook rhywun?
- Ddylwn i ddwyn rhywbeth o siop?
- Ddylwn i drio ysmygu?

Gofynnwch i bob grŵp ddewis cwestiwn a'i ysgrifennu ar y bwrdd gwyn.
Rŵan gofynnwch i'r dosbarth bleidleisio dros y cwestiwn sydd orau ganddynt. Rhowch grid penderfyniadau (Adnodd 15a) i bob grŵp a gofynnwch iddynt ysgrifennu'r cwestiwn mwyaf poblogaidd ar frig y tabl.

Cyn gofyn i'r disgyblion lenwi'r grid, trafodwch y syniad o beth sy'n ddewis da a beth sy'n ddewis gwael. Pam fod rhai dewisiadau yn fwy pwysig nag eraill? Nodwch efallai mai ychydig o effaith, os o gwbwl fydd rhai dewisiadau yn eu cael arnynt yn y dyfodol, tra bydd canlyniadau pwysig iawn i ddewisiadau eraill. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r grid.

Rhowch gopi arall o'r grid penderfyniadau (Adnodd 15a) i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu un o'r cwestiynau canlynol ar frig y tabl a llenwi'r grid unwaith eto.

- Ddylwn i anfon neges rywiol?
- Ddylwn i greu delwedd anweddus?
- Ddylwn i anfon delwedd anweddus at rywun arall?

Yna gofynnwch i'r disgyblion rannu eu gwaith gyda gweddill y dosbarth. Trafodwch eu sylwadau gan nodi bod yna ganlyniadau difrifol nawr ac yn y dyfodol os ydych yn gwneud, anfon neu'n cael delwedd anweddus. Dangoswch y diffiniad o secstio (Adnodd 15b) i'r dosbarth a'u hatgoffa beth yw'r gyfraith o ran delweddau amheus (Adnodd 15c). Nodwch y gall hyn i gyd ddibynnu ar wneud dewis da neu ddrwg.

Dylech orffen drwy ofyn i'r myfyrwyr beth ydi eu dealltwriaeth nhw o'r dyfyniad canlynol: "It is our choices… that show what we truly are, far more than our abilities." - J.K. Rowling.

**Nodyn i'r Athro/Athrawes:**

Cyn gynted ag y mae person ifanc yn llwytho i fyny neu'n anfon llun neu fideo maent yn colli rheolaeth ohono am byth oherwydd mae'r rhyngrwyd yn barth cyhoeddus. Pan fydd pobl yn anfon negeseuon rhywiol neu ddelweddau rhywiol anweddus gan ddefnyddio technoleg ddigidol fe elwir hyn yn secstio.

Mae gwaith ymchwil a wnaed gan yr Internet Watch Foundation (IWF 2012) yn dangos bod 88% o ddelweddau o bobl ifanc sydd ar-lein yn cael eu cymryd o'u lleoliad gwreiddiol a'u llwytho i fyny i wefannau eraill.

Y Gyfraith
Fe ddiffinnir plentyn fel person dan 18 oed.

Mae tynnu, gwneud, rhoi caniatâd i dynnu, rhannu, dangos, meddu, meddu gyda'r bwriad o rannu neu hysbysebu lluniau anweddus neu luniau ffug o unrhyw berson dan 18oed yn drosedd.

Os bydd yn cael ei euogfarnu, yna gall y troseddwr gael ei garcharu am hyd at 10 mlynedd a gall ei enw gael ei roi ar y gofrestr o droseddwyr rhyw.